# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar Hydref 7fed 2025 yn Neuadd Coedybryn

**Yn bresennol** Cyng. Sharon Thomas (Cadeirydd)

Cyng. Rob Jones

Cyng. Emyr Jones

Cyng. Ceri Jones

Cyng. Osian Davies (ar-lein)

Cyng. Carol Davies

Cyng. Maldwyn Lewis

Cyng. Teifi Evans

**Clerc** Helen Horscroft

**1 . Ymddiheuriadau**

Cyng. Mark Davies, Cyng. Sian Williams, Cyng. Llyr Evans

**2. Datgan Diddordeb**

DIM

**3. Cofnodion y Cyfarfod diwethaf**

3.1 **-** Derbyniodd pawb gopi o gofnodion mis Medi a chynigodd Cyng. Teifi Evans eu bod yn gywir, ac eiliwyd gan Cyng. Emyr Jones.

**4. Materion yn codi o'r cofnodion**

4.1 **-** Eisiau edrych nol ar gofnodion Lesley Parker i weld prisiau 'domain'.

Sharon i ffono 'H' yn BCCIT am brisau a gwybodaeth domain.

4.2 - Ishe toolkit gael ei rannu

4.3 **-** Rydym heb glywed dim byd nol o'r awdit – cymryd yn ganiataol fod popeth yn iawn.

4.4 **-** Cyflog y clerc yn iawn.

4.5 **-** Helen wedi arwyddo a darllen y cytundeb

**5. Cyrsiau**

5.1 **-** Pawb sydd eisiau gwneud cyrsiau, i gysylltu a'r clerc.

**6. Materion y Cynghorydd Sir**

6.1 **-** Cynllun Amddiffyn Arfordir Aberaeron wedi dod i ben. Mae e wedi bod yn waith pwysig iawn i'r dref, yn hanfodol i achub Aberaeron rhag llifogydd ayb. Ardal yn saff am 100 mlynedd nawr.

6.2 **-** Ma'r Cyngor Sir wedi prynu Fferm Llety Twppa, ac maent yn gweitho gyda Coleg Drindod Dewi Sant i gynnig cyrsiau i bobol ifanc sydd ddim yn golgu mynd i'r Brifysgol.  Bwriad arall yw i ddatblygu'r **lle i fod yn gampws chwaraeon da.**

6.3 **-** Ceisiadau Gwobrau Caru Ceredigion i fod mewn erbyn Tachwedd 3ydd.

6.4 **-** Mae ychydig o arian wedi cyrraedd y Sir o Gaerdydd i helpu gadw Safle Gwastraff Rhydeinon ar agor am o leiaf blwyddyn.

6.5 **-** Ma achos o Tafod Glas wedi cyrradd Cymru, eisiau ffermwyr fod yn ofalus.

**7. Banc**

7.1 **-** Eisiau trio sorto allan Mandat y Banc eto.  Pobol yn cal ffwdan i gadarnhau pethe ar y we.

**8. Gohebiaeth**

8.1 **-** Samantha Coward CCC-TPO 0-4-09 – Cadarnhau'r order – Nick Timlim  01545 570881 – Tree hedgegrow officer

8.2 **-** Katherine Brown (Un Llais Cymru)  - ynglyn ag hyfforddiant.

8.3 **-**  E-bwletin Un Llais Cymru.

8.4 **-** Cymdeithas Owain Glyndwr – Diwrnod Owain Glyndwr ar Medi 16eg.

8.5 **-**  Y Clerc- rhestr hyfforddiant.

8.6 **-** Tracy Gilmartin – Un Llais Cymru – atgoffa am y Cyfarfod Cyffredinol a Chynhadledd 01.10.25.

8.7 **-** CLIC – torri clawdd-782708- gwaith wedi ei rhaglenni.

8.8 **-** Cathryn Morgan-Rheolydd Cydraddoldeb a Chynhwysiant Sir Ceredigion – grant ' Mannau Croeso Cynnes Ceredigion ar agor – Uchafswm o £1000, dyddiad cau 5.11.25.

8.9 **-** Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed Powys- newid enw'r 'fforwm Ymgysyllru a Dioddefwyr ' i 'Rhwydwaith Ymgysylltu a DiodeddefwyrGoroeswyr' – Llenwi arolwg.

8.10 **-** Un Llais Cymru – Adroddiad Blynyddol Ddraft ar Gydnabyddiaeth .

8.11 **-** Cyngor  Ceredigion – Llythyr precept 2026-2027.

8.12 **-** E-bwletin rhif 9 – Un Llais Cymru.

8.13 **-** Swyddfa Heddlu Dyfed Powys – digwyddiadau drysiau agored 22.10.25  3.30-8.00 yh, 23.10.25 3.30-8.00 yh.

8.14 **-** Pwyllgor ardal Ceredigion – cyfarfod ar lein 29.09.25, 7 or gloch.

8.15 **-** Un Llais Cymru – 'Keep Wales Tidy – Gweminar Gofod Gwyrdd a Bioamrywiaeth 23.10.25 10.30-12.00 yh.

8.16 - Anwen McConochie CCC – Ceisiadau Gwobr am Caru Ceredigion 2025.

8.17 **-** Dana Jones CCC- Cylchlythr Ceredigion Oed Gyfeillgar Medi 2025.

8.18 **-** E-bwletin rhif 10 – Un Llais Cymru.

8.19 **-** CLIC – 752090 – Coed sy'n hongian dros y briffordd- angen gweithredu.

8.20 **-** Wendy Patience- Un Llais Cymru – Cofnodion Drafft Pwyllgor Ardal Ceredigion 29.09.25.

**9. Cyllid**

9.1 - Cyfraniad Guto Harries – Ceri yn cynnig a Teifi yn eilio. Maldwyn yn cynnig £250 , pawb yn yr ystafell yn cytuno.

9.2 - Y Cyng. Ceri Jones a'r Cyng. Rob Jones yn arwyddo 2 siec – y Clerc £270.54 a HMRC £67.60.

**10. Nadolig**

10.1 -Mae eisiau bwrw mlaen gyda'r coed nadolig , yr un peth a llynnedd.

10.2 – Angen dewis dyddiad i gynnal y noson canu carolau yng nghyfarfod mis Tachwedd.

10.3 - Mae eisiau gweld pryd ma pawb yn rhydd i gynnal Cinio Nadolig.

**11. Blodau**

11.1 - Gadel y blodau i fod – tywydd digon teg ar hyn o bryd.

**12. De-Fib yn Neuadd Ffostrasol**

**12.1 -** Geith hwn ei drafod yng nghyfarfod mis Tachwedd pan fydd y Cyng. Mark Davies yn bresennol.

**13. Materion Ardal**

**Coedybryn :**

13.1 - Llawer o faw ci o amgylch y pentre.

13.2 - Mae angen golau cryfach mewn lamp tu allan y neuadd. Helen i neud adroddiad CLIC – What 3 Words – FLAGPOLE, PRICING, WEEDS.

13.3 - Buodd cyngerdd Bryn Fon a Bore Coffi MacMillan yn llwyddiannus iawn yn y neuadd-codwyd bron i £900 yn y bore coffi.

**Penrhiwpal :**

13.4 - Mae Dwr Cymru yn cau rheol B4334 – Penrhiwpal-Rhydlewis o 13.10.25.

**Croeslan :**

13.5 - Angen cwrso lan sefyllfa'r ffens ar y ty ar y sgwar ar CLIC.

**Rhydlewis:**

13.6 - Dim

**Brongest:**

13.7 **-** Dim

**Ffostrasol**


13.8 - Annibendod o gwmpas y cyffordd.

13.9 - Llongyfarchiadau i Cyng. Carol Davies am gwblhau hanner marathon Caerdydd yn ddiweddar.

**14. Cyfarfod nesaf**

14.1 - Cynhelir cyfarfod nesaf yn Neuadd Rhydlewis nos Fawrth Tachwedd 4edd 2025

Cytunwyd fod y cofnodion yma'n gywir.



04.11.2025

---------------------------------------------------------- --------------------------------------------------

Arwyddwyd ( y Cadeirydd ) Dyddiad